# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**COFNODION**
**PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**Yn Y Ganolfan am 19.00 Nos Fawrth Gorffennaf 28ain 2026**

1. **Presennol:**
   **Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Aled Griffith, Cyng. Edward Naish, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Michael Roberts, Cyng. Karena Owens, Cyng. Carol Hayes.**
   **Elfyn Lewis (Clerc).**

2. **Ymddiheuriadau.**
   **Cyng. Sarah Williams, Cyng. Dr. Melfyn Edwards, Cyng. Llywelyn Rhys (Is-gadeirydd), Cyng. Jeremy Davies.**

3. **Absennol:**
   **Cyng. Dion Humphreys, Cyng. Ben Humphreys.**

4. **Archwilio'r cyfrifon.** (Mantolen hyd at Orffennaf 21ain 2026).
   **Cafwyd yn gywir.**

   Gofynwyd i'r Clerc ddarparu mwy o fanylion am y gwariant gweinyddol.
   Trefnwyd cyfarfod i drafod archwilio cyfrifon Cyngor Tref Porthmadog am 7.00 yh ar Awst 3ydd.

5. **Trefniadau Nadolig 2026:**
   Penderfyniad;
   Mae Caru Port yn brysur yn trefnu digwyddiadau i gyd-fynd gyda Noson Goleuo Port 2026. Tachwedd 28ain yw'r dyddiad eleni pryd mae'r goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen. Bydd digwyddiadau yn ystod y dydd gan gynnwys Ras y Cob, gorymdaith Batala Bermo ar hyd y Stryd Fawr a digwyddiadau yn Y Ganolfan Hamdden a'r Ganolfan Cymdeithasol.

   Trafodwyd sut y gallai'r Cyngor Tref wario yr arian maent yn ei dderbyn o'r meysydd parcio gan Cyngor Gwynedd. Bwriedir creu rhestr wrth gefn er mwyn defnyddio'r arian i ariannu prosiectau yn nalgylch Cyngor Tref Porthmadog.

6. **Biliau i'w talu.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | Marian Roberts | Cyflog 24 awr | £368.64 |
| **2** | HMRC | Treth Incwm Marian Roberts | £92.16 |

**<u>Ceisiadau Cynllunio:</u>**

^R L^SLMTWNFI%H^SQQZSNT?%Wmnk%Hfnx?%H7;458964994QQ%2%HQ\ G%LTQKK%UTWYMR FITL%
Kktwii%R twkf%G~hmfs1%R twkf%G~hmfs1%Utwymr fitl1%L|~sjii1%QQ9>%>ZZ%
Bwriad: Adeiladu adeilad newydd i gynnwys "Golf simulator"
**Penderfyniad:**
**Dim gwrthwynebiad.**

^R L^SLMTWNFI%H^SQQZSNT4UQFSSNSL%HTSXZQYFYNTS??%Wmnk%Hfnx4Fuu%Wjk?%
H7;458>;4994QQ%2%Ymj%Mfwgtzwxnij%Hqsnh1%9%2%:%Ujs%^%Hjn1%Utwymr fitl1%L|~sjii1%QQ9>%>FY
Bwriad: Newid defnydd o meddygfa "osteopath" i ddefnydd cymysg o uned gwyliau ac ystafell gyfarfod i Gyfreithwyr.
**Penderfyniad:**
**Gwrthwynebu ar sail bod y cais cynllunio yn bwriadu creu uned gwyliau yn y dref pryd mae angen mwy o lety parhaol i bobl lleol.**

^R L^SLMTWNFI%H^SQQZSNT4UQFSSNSL%HTSXZQYFYNTS??%Wmnk%Hfnx4Fuu%Wjk?%
H7;458><4994HW%2%Ymj%Mfwgtzwxnij%Hqsnh1%9%2%:%Ujs%^%Hjn1%Utwymr fitl1%L|~sjii1%QQ9>%>FY
Bwriad: Addasiadau mewnol.
**Penderfyniad:**
**Gwrthwynebu ar sail bod y cais cynllunio yn bwriadu creu uned gwyliau yn y dref pryd mae angen mwy o lety parhaol i bobl lleol.**

Yn gywir,

Elfyn Lewis (Clerc)

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*